AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH - RHYBUDD DIOGELWCH	
Enw'r Adran:	*Adran Diwydiannau Arbenigol - Arolygiaeth Mwyngloddiau*
Bwletin Rhif:	*(Rhif Bwletin i gael ei ddyrannu gan STSU, Uned Diogelwch 2)*
Dyddiad Cyhoeddi	*Cyn Gynted at y Bo Modd*
Cynulleidfa Darged:	*Mwyngloddio:* *Perchenogion a rheolwyr mwyngloddiau sy'n cynhyrchu glo neu fwynau eraill*
Materion Allweddol:	*Atgoffa perchenogion a rheolwyr mwyngloddiau sydd ar waith o'r camau i'w cymryd rhag mewnlifiadau ac i ofyn i berchenogion gadarnhau eu bod yn cymryd camau o'r fath yn y mwyngloddiau y maent yn eu gweithredu.*

Atal mewnlifiadau mewn mwyngloddiau tanddaearol

CYFLWYNIAD:

Diben y rhybudd diogelwch hwn yw:

- atgoffa perchenogion a rheolwyr mwyngloddiau sydd ar waith o'r camau i'w cymryd rhag mewnlifiadau; a
- gofyn i berchenogion gadarnhau bod camau addas i ddiogelu rhag mewnlifiadau yn eu lle yn eu mwyngloddiau.

CEFNDIR:

Atgoffodd y mewnlifiad o ddŵr a deunyddiau ym Mhwll Gleision yn Ne Cymru a arweiniodd at farwolaeth pedwar glowr ni o'r perygl mawr y gall mewnlifiad heb ei reoli i weithfeydd o'r fath ei greu mewn modd trasig. Roedd y mewnlifiad diwethaf a arweiniodd at golli bywydau mewn mwynglawdd ym Mhrydain yn 1973 yn Lofthouse, Swydd Efrog pan laddwyd saith o lowyr.

Ar ôl y digwyddiad, cyflwynwyd y Rheoliadau Mwyngloddiau (Camau Rhag Mewnlifiadau) 1979 oedd yn ei gwneud yn ofynnol i berchenogion a rheolwyr pob mwynglawdd gymryd camau i atal mewnlifiad nwy, dŵr a deunydd, sy'n llifo neu sy'n debygol o lifo pan fydd hi'n wlyb.

Mae'r ymchwiliad i fewnlifiad Gleision yn dal ar waith ac mae'n rhy gynnar i ddweud yn union beth aeth o'i le. Mae'r Cod Ymarfer a Gymeradwywyd i'r Rheoliadau Mwyngloddiau (Camau Rhag Mewnlifiad) 1979 yn dwyn at ei gilydd y prif ddyletswyddau statudol a'r camau diogelu i ymdrin â pherygl mewnlifiadau i weithfeydd mwyngloddio. Mae'n disgrifio'r dulliau i ddynodi a

oes risg o fewnlifiad yn bodoli, asesu maint y risg a'r camau i'w cymryd i ddiogelu rhag y risg honno.

CAMAU GOFYNNOL:

Mae pedwar pwynt penodol i berchenogion a rheolwyr ymdrin â nhw:

- Sicrhau bod cynlluniau o weithfeydd tanddaearol yn gywir a chyfredol;
- Cadarnhau bod y cynlluniau yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i ddynodi a oes gwaith yn cael ei wneud yn yr hyn y mae'r Rheoliadau yn ei ddiffinio fel "ardal a all fod yn beryglus." Mae hyn yn cynnwys ardaloedd sydd o fewn 37m o weithfeydd mwyngloddio nad ydynt yn cael eu defnyddio neu o fewn 45m o'r wyneb, strata sy'n debygol o gynnwys dŵr, deunydd sy'n debygol o lifo pan fydd hi'n wlyb neu weithfeydd eraill nad ydynt yn cael eu defnyddio (e.e. dyfrdyllau tanddaearol);
- Gwirio, os bydd gwaith yn mynd yn ei flaen mewn "ardal a all fod yn beryglus" bod cynllun wedi ei lunio i sicrhau na fydd mewnlifiad yn digwydd a'i fod yn cael ei ddilyn; a
- Chadarnhau bod copi o gynllun o'r fath wedi ei anfon at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o leiaf 30 diwrnod cyn i'r gwaith gychwyn.

Dylai perchenogion mwyngloddiau ysgrifennu at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn y cyfeiriad isod cyn pen 30 diwrnod i gadarnhau bod ganddynt y trefniadau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu dilyn. Bydd yr Awdurdod yn asesu'r wybodaeth ac yn cynnal arolygiadau dilynol yn ôl y gofyn.

DOGFENNAU CYFREITHIOL PERTHNASOL

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac yn y blaen 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoli a Gweinyddu Iechyd a Diogelwch mewn Mwyngloddiau 1993
- Rheoliadau Mwyngloddiau (Camau Rhag Mewnlifiadau) 1979

CYFEIRIADAU:

- L46 Cod Ymarfer a Gymeradwywyd 'The Prevention of Inrushes in Mines'

RHAGOR O WYBODAETH

Adran Diwydiannau Arbenigol
Arolygiaeth Mwyngloddiau EM
Foundry House
3 Millsands
Riverside Exchange
Sheffield
S3 8NH

Ffôn: +44 (0) 114 291 2390
minesadmin@hse.gsi.gov.uk

NODYN CYFFREDINOL:

Trosglwyddwch y wybodaeth hon i syrfewr eich mwynglawdd ac eraill a all fod â diddordeb os gwelwch yn dda.

Diwydiannau i ddyfynnu yn y bloc Teitl: Mwyngloddio